

**Dogfen B:** Tabl sy'n dangos diddymiadau a diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol o ganlyniad i gychwyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Ddeddf 2014") ar 6 Ebrill 2016.

Adran o'r Ddeddf	Diddymu / Diwygio	DGCLLC 2014	Disgrifiad	Sylwadau
<b>Deddf Cymorth Gwladol 1948</b>				
21 a 29	Diddymu	Rhan 4 Adrannau 35 ac 36	Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn; Pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn	
21(1A) ac (1B)	Diddymu	Rhan 4 Adran 46	Eithriad ar gyfer personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo	
21(8)	Diddymu	Rhan 4, Adran 48	Eithriad ar gyfer darparu tai etc	
21(8) a 29(6)(b)	Diddymu	Rhan 4 Adran 47	Eithriad ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd	Bydd adran 47(1) a (2) o Ddeddf 2014 bellach yn gymwys.
22	Diddymu	Rhan 5 Adrannau 59 i 67	Codi ffioedd am ddiwallu anghenion	
24	Diddymu	Rhan 11 Adran 194	Preswylfa arferol	
26(1A), (1C) ac (1D)	Diddymu	Rhan 4 Adran 47	Eithriad ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd	Bydd adran 47(6) a (7) o Ddeddf 2014 bellach yn gymwys.
29(4)(g)	Diddymu	Rhan 2 Adran 18	Cofrestrau o bobl â nam ar eu golwg, pobl â nam ar eu clyw a phobl anabl eraill	
29(6)(a)	Diddymu	Rhan 4 Adran 49	Cyfyngiadau ar ddarparu taliadau	
30A	Diddymu	Rhan 11 Adran 184	Ymchwil a darparu gwybodaeth	
32(1) a (2)	Diddymu	Rhan 11 Adran 193	Adennill costau rhwng awdurdodau lleol	
32(3) i (6)	Diddymu	Rhan 11 Adran 195	Anghydfodau ynghylch preswylfa arferol	
47	Diddymu	Rhan 7 Adran 129	Diddymu pŵer awdurdod lleol i symud personau y mae arnynt angen gofal a sylw	
48	Diddymu	Rhan 4 Adran 58	Gwarchod eiddo	
49	Diwygio	Rhan 11 Adran 192	Diwygio Deddf Cymorth Gwladol 1948 (mewn perthynas â threuliau swyddogion cyngor sy'n gweithredu fel derbynyddion)	Ni fydd adran 49 o Ddeddf 1948 bellach yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr.
<b>Deddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958</b>				
3	Diwygio	Rhan 4 Adrannau	Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a	Ni fydd adran 3 o Ddeddf 1958 bellach yn gymwys o

		35 ac 36	chymorth oedolyn; Pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn	ran Cymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr.
<b>Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968</b>				
45	Diddymu	Rhan 4 Adrannau 35 ac 36	Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn; Pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn	
45(4A) a (4B)	Diddymu	Rhan 4 Adran 46	Eithriad ar gyfer personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo	
<b>Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970</b>				
1	Diwygio	Rhan 2 Adran 17	Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy	Ni fydd adran 1 o Ddeddf 1970 bellach yn gymwys i Gymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i Loegr mewn perthynas â gwybodaeth am wasanaethau i blant anabl.
2	Diwygio	Rhan 4 Adrannau 35 ac 36	Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn; Pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn	Ni fydd adran 2 o Ddeddf 1970 bellach yn gymwys i Gymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i Loegr mewn perthynas â gwasanaethau i blant anabl.
28A	Diddymu	Rhan 4 Adrannau 37 i 39	Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn; Pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn; Dyletswydd i gadw cyswllt â'r teulu	
<b>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970</b>				
1A	Diwygio	Rhan 8 Adran 143	Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol	Ni fydd DGCALI 1970 bellach yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr.
6	Diwygio	Rhan 8 Adran 144	Cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol	Ni fydd DGCALI 1970 bellach yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr.
7 a 7A	Diwygio	Rhan 8 Adrannau 145 i 149	Codau	Ni fydd DGCALI 1970 bellach yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr.
7D	Diwygio	Rhan 8 Adrannau 150 i 161	Pwerau ymyrryd gan y llywodraeth ganolog	Ni fydd DGCALI 1970 bellach yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr.
Atodlen 1	Diwygio	Atodlen 2	Swyddogaethau	Ni fydd Atodlen 1 i DGCALI

			gwasanaethau cymdeithasol	1970 bellach yn gymwys o ran Cymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr.
<b>Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983</b>				
17(2A)	Diddymu	Rhan 5 Adrannau 59 i 67	Codi ffioedd am ddiwallu anghenion	
21, 22 a 24	Diwygio	Rhan 5 Adrannau 70 i 72	Adennill costau, llog etc; Creu arwystl dros fuddiant mewn tir; Trosglwyddo asedau i osgoi ffioedd	Wedi eu cadw ar gyfer trefniadau trosiannol i alluogi adennill costau mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarperir cyn cychwyn Deddf 2014.
<b>Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986</b>				
3 ac 8	Diwygio	Rhan 3 Adrannau 24 i 27	Asesu anghenion gofalwyr	Bydd adrannau 3 ac 8 o Ddeddf 1986 yn dal i fod yn gymwys yn yr Alban.
4	Diwygio	Rhan 3 Adrannau 24 i 27	Asesu anghenion gofalwyr	Bydd adran 4 o Ddeddf 1986 yn dal i fod yn gymwys yn Lloegr mewn perthynas â phersonau anabl o dan 18 oed.
<b>Deddf Plant 1989</b>				
Noder: mae Dogfen A yn cofnodi'r tabl trawsleoli ar gyfer darpariaethau yn Neddf Plant 1989				
<b>Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990</b>				
47(1)(a)	Diwygio	Rhan 3 Adrannau 19 ac 20	Asesu anghenion oedolion	Mae adran 47 o Ddeddf 1990 wedi ei diwygio fel nad yw ond yn gymwys i asesiadau ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
47(1)(b)	Diwygio	Rhan 4 Adrannau 32 a 33	Dyfarnu cymhwysra ac ystyried beth i'w wneud i ddiwallu anghenion	Mae adran 47 o Ddeddf 1990 wedi ei diwygio fel nad yw ond yn gymwys i ddiwallu anghenion am wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.  Rhoddwyd meini prawf cymhwysra, yn lle'r meini prawf Mynediad Teg at Wasanaethau Gofal, mewn rheoliadau <sup>1</sup> o dan adran 32 o Ddeddf 2014.
<b>Cyfarwyddydau Deddf Cymorth Gwladol 1948 (Dewis Llety) 1993</b>				
Pob un	Diddymu	Rhan 4 Adran 57	Achosion pan fo person yn mynegi ei fod yn ffafrio llety penodol	

<sup>1</sup>Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015  
<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1578/made/welsh>

<b>Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995</b>				
1	Diwygio	Rhan 3 Adrannau 24 i 27	Asesu anghenion gofalwyr	Bydd adran 1 o Ddeddf 1995 yn dal i fod yn gymwys yn Lloegr at ddibenion penodol.
<b>Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000</b>				
1	Diddymu	Rhan 1 Adrannau 2 i 4	Ystyr gofalwr	
1, 4, 6 a 6A	Diddymu	Rhan 3 Adrannau 24 i 27	Asesu anghenion gofalwyr	
2	Diddymu	Rhan 4 Adrannau 40 i 45	Diwallu anghenion gofalwyr	
<b>Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001</b>				
49	Diddymu	Rhan 4 Adran 47	Eithriad – darparu gwasanaethau iechyd	Bydd adran 47(4) a (5) o Ddeddf 2014 bellach yn gymwys. DS Mae gwaharddiad mewn perthynas â gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 wedi ei gadw drwy fewnosod adran 117B.
54	Diddymu	Rhan 4 Adran 57	Achosion pan fo person yn mynegi ei fod yn ffafrio llety penodol	
55	Diwygio	Rhan 5 Adran 68	Cytundebau ar daliadau gohiriedig	Wedi ei chadw ar gyfer trefniadau trosiannol i alluogi i gytundebau ar daliadau gohiriedig a wnaed cyn cychwyn Deddf 2014 barhau i fod yn gymwys mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir o dan Ddeddf 2014
57	Diwygio	Rhan 4 Adrannau 50 i 53	Taliadau uniongyrchol	Ni fydd adran 57 o Ddeddf 2001 bellach yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol i bersonau o dan 18 oed sy'n gymwys i gael gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
<b>Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002</b>				
3A	Diwygio	Rhan 9 Adran 170	Gwasanaeth mabwysiadu – trefniadau ar y cyd	Mae adran 170 o Ddeddf 2014 yn mewnosod adran 3A yn Neddf 2002 (a gychwynwyd ar 1 Tachwedd 2014)

<b>Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003</b>				
114(3) a (4)	Diddymu	Rhan 10 Adrannau 171 i 178	Cwynion a sylwadau am wasanaethau cymdeithasol	Mae rheoliadau a wneir o dan adran 114 o Ddeddf 2003 yn cael eu trin fel pe baent wedi eu gwneud o dan adran 171 o Ddeddf 2014 a byddant yn parhau i fod yn gymwys.
<b>Deddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003</b>				
16	Diddymu	Rhan 5 Adran 62	Rheoliadau yn datgymhwyso pŵer i osod ffi	Gallai rheoliadau o dan adran 62 ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddiwallu anghenion o dan adrannau 35 i 45 yn rhad ac am ddim.  DS Ni chychwynwyd adran 16 o Ddeddf 2003.
<b>Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004</b>				
1 a 2	Diddymu	Rhan 3 Adrannau 24 i 27	Asesu anghenion gofalwyr	
3	Diddymu	Rhan 9 Adrannau 162 a 163	Trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad	
<b>Deddf Plant 2004</b>				
25	Diwygio	Rhan 9 Adran 163	Trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad – plant	
31 i 34	Diddymu	Rhan 7 Adrannau 134 i 142	Byrddau Lleol Diogelu Plant	
50A	Diwygio	Rhan 8 Adrannau 150 i 161	Pwerau ymyrryd gan y llywodraeth ganolog	Nid yw adran 50A o Ddeddf 2004 bellach yn gymwys mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol ond mae'r ddarpariaeth yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â swyddogaethau addysg penodedig.
<b>Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006</b>				
192 ac Atodlen 15	Diddymu	Rhan 4 Adrannau 35 ac 36	Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn; Pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn	
<b>Deddf Gofal Personol yn y Cartref 2010</b>				
Pob un	Diddymu	Rhan 5 Adran 62	Rheoliadau yn datgymhwyso pŵer i osod ffi	Gallai rheoliadau o dan adran 62 ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddiwallu anghenion o dan adrannau 35 i 45 yn rhad ac am ddim.

				DS Ni chychwynwyd Deddf 2010.
<b>Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010</b>				
Pob un	Diddymu	Rhan 2 Adran 14	Aseidiadau Poblogaeth	Mae adran 14 o Ddeddf 2014 yn cynnwys dyletswydd i asesu anghenion gofalwyr ac yn diwygio adran 40 o DGIG(C) 2006 fel bod dyletswydd i ystyried yr asesiad hwn wrth lunio neu adolygu strategaeth iechyd a llesiant.
<b>Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010</b>				
Pob un	Diddymu	Rhan 5 Adrannau 59 i 67 a 73	Codi ffioedd am ddiwallu anghenion	
<b>Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010</b>				
Rhan 3	Diddymu	Rhan 9 Adrannau 166 i 169	Trefniadau partneriaeth	Mae darpariaeth ar gyfer Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd bellach wedi ei chynnwys mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 166 o Ddeddf 2014.

### Nodiadau pellach

Mae Rhan 10, adrannau 179 i 180 o Ddeddf 2014 yn cynnwys darpariaethau sy'n cyfateb i'r rhai sydd yn Rhan 3A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 sy'n delio â chwynion ynghylch gofal cymdeithasol preifat.

Mae Rhan 11, adrannau 189 i 191 o Ddeddf 2014 yn ymwneud ag adrannau 50 i 52 o Ddeddf Gofal 2014 (dyletswydd dros dro ar awdurdodau lleol Cymru) sy'n gymwys mewn perthynas â phobl sy'n cael gwasanaethau yng Nghymru sy'n cael eu darparu gan awdurdod yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon.

Mae Atodlen 1A i Ddeddf 2014 wedi ei mewnosod gan adran 75 o Ddeddf Gofal 2014 i wneud darpariaeth ar gyfer taliadau uniongyrchol mewn perthynas ag ôl-ofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.